Enw

DARLLENWCH
1 Samuel 17: 12-52

ADNOD ALLWEDDOL
1 Samuel 17: 47

Gwers 2 Bywyd Dafydd – Curo'r Cawr!

Roedd yr Israeliaid mewn rhyfel. Roedd gan y gelyn, y Philistiaid, arf arbennig – cawr mawr, cryf! Roedd e bron 3 metr o daldra! I benderfynu pwy fyddai'n ennill y frwydr, roedd Goliath y cawr am ymladd ag un o'r Israeliaid. Bob dydd, roedd Goliath yn herio'r Israeliaid i anfon rhywun i ymladd yn ei erbyn.

C Enwch dri o feibion Jesse oedd wedi mynd i'r rhyfel. 3

C Pa adnod sy'n dweud wrthym fod Jesse wedi gofyn i Dafydd fynd i weld sut yr oedd ei frodyr? Adnod 1

SYM

Am faint o ddiwrnodau bu Goliath yn herio Israel? .....
+ Sawl torth aeth Dafydd â nhw i'r frwydr? .....
+ Sawl cosyn aeth Dafydd â nhw i'r frwydr? .....
CYFANSWM = ... 3

Pan oedd Dafydd yn siarad â'i frodyr, gallai glywed Goliath yn herio'r Israeliaid a gwelodd bod y rheiny'n ofnus iawn. Roedd y brenin Saul wedi cynnig gwobrau hael i unrhyw un a fyddai'n lladd Goliath.

C Rhowch y geiriau yn y drefn gywir i weld beth oedd y gwobrau.

Byddai'r brenin yn ei wneud yn O TH O E G F Y G A N W I _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ .

Byddai'r brenin yn rhoi ei F CH R E _ _ _ _ _ yn A R W G I _ _ _ _ _ iddo. 3

Ni fyddai'n rhaid i'w deulu dalu I TH R E T _ _ _ _ _ _ .

Roedd Dafydd yn siarad ac yn holi pobl a chlywodd Eliab, ei frawd hynaf ef.

C Ysgrifennwch yn YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN beth a ddywedodd Eliab yn adnod 28. 1

Clywodd Saul fod Dafydd yn holi am hynt y frwydr ac anfonodd amdano.

C **Defnyddiwch y cod isod i gael gwybod beth ddywedodd Dafydd.**

1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14	15	16	17	18
a	â	c	d	dd	e	f	h	i	l	m	n	ph	r	s	t	w	y

7 6	1 7	9	1 3	18 11	10 1	5	2 14	13 9	10 9	15	16 9	1 4	8	17 12
_ _	_ _	_	_ _	_ _	_ _	_ _	_ ’ _	_ _	_ _	_ _	_ _	_ _	_	_ _

2

C **Ysgrifennwch ar y dotiau pwy a ddywedodd bob un o’r brawddegau isod a nodwch yn y bocsys ym mha drefn y cawson nhw eu dweud. (Adnodau 33 – 37)**



4

C **Lliwiwch y pethau NAD aeth Dafydd gydag ef i ymladd â Goliath.**

1

Aeth Dafydd o’r nant i ymladd â Goliath. Pan welodd Goliath Dafydd yn dod, doedd arno ddim ofn o gwbl. Roedd yn meddwl y byddai’n lladd Dafydd yn hawdd. Ond roedd gan Dafydd ffydd yn Nuw ac roedd yn hyderus y byddai’n ennill.

C **O’r Adnod Allweddol, ysgrifennwch beth ddywedodd Dafydd wrth Goliath am y frwydr.**

1

C **Ysgrifennwch YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN sut y lladdodd Dafydd Goliath.**

1

Trwy ei ffydd a gyda help Duw, enillodd Dafydd y frwydr yn erbyn Goliath. Heddiw, y diafol (neu Satan) yw ein gelyn mwyaf. Enillodd Iesu Grist y frwydr yn erbyn Satan pan fu farw ar y groes. Pan rydyn ni’n ymddiried yn Iesu, rydyn ni’n cael profiad o’i fuddugoliaeth dros Satan.